

Gwasanaethau Offthalmig
Cyffredinol Cymru
Wales General
Ophthalmic Services

Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS): Golwg Gwan

Os oes gennych nam ar eich golwg, gallwn eich
helpu i wneud y gorau o'ch golwg.

01267 248793

www.eyecare.wales.nhs.uk

Cymorth i oedolion a phlant â golwg gwan sy'n byw neu sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru

Gall Gwasanaeth Golwg Gwan WGOS ddarparu cymhorthion golwg arbenigol, chwyddwydrau, lampau a chynghor i'r rheiny sy'n cael anhawster gweld yn glir wrth ddefnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd ar brescripsiwn, a hynny yn rhad ac am ddim.

Mae optegwyr Golwg Gwan achrededig yn darparu'r gwasanaeth hwn gan y GIG yn rhad ac am ddim yn eich cymuned.

Gallant hefyd eich cyfeirio at gymorth pellach gan wasanaethau'r Awdurdod Lleol, eich Meddyg Teulu, Fferyllydd, Grwpiau Cymorth Gwirfoddol, ac adnoddau eraill yn eich ardal.

Sut y mae cael asesiad?

Mae'n rhaid eich bod yn byw yng Nghymru neu eich bod wedi cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru a'ch bod wedi cael prawf golwg yn ddiweddar (neu'n barod i gael un).

Gallwch gael eich atgyfeirio gan unrhyw un o'r canlynol:

- Chi eich hun, eich teulu neu eich ffrindiau
- Eich Optometrydd/Optegydd eich hun
- Meddyg Teulu neu Fferyllydd
- Gwasanaethau'r Awdurdod Lleol
- Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty
- Gwasanaethau Cymunedol
- Darparwyr Addysg
- Grwpiau gwirfoddol

Fel arfer, mae'r Asesiad Golwg Gwan yn cael ei ddarparu mewn practis optegwyr, ond mewn rhai achosion, gall gael ei gynnal yn eich cartref eich hun.

Beth y gallaf ei ddisgwyl?

Apwyntiad sy'n para hyd at awr gydag optegydd Golwg Gwan achrededig, a fydd yn:

Trafod yr anawsterau y mae'r nam ar eich golwg yn eu hachosi i chi

Mesur eich golwg

Eich helpu i roi cynnig ar gymhorthion golwg priodol, a rhoi rhai addas i chi ar bresgripsiwn

Trafod eich cyflwr/cyflyrau llygaid â chi

Darparu gwybodaeth am gymorth, addysg, cyflogaeth a gwasanaethau gwirfoddol yn eich ardal, lle y bo'n berthnasol

Eich atgyfeirio at weithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau cymorth eraill, os oes angen.

Ble y gallaf ddod o hyd i'r gwasanaeth hwn am ddim?

Er mwyn dod o hyd i bractis yn eich ardal chi sy'n cynnig Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru:

Ffoniwch 01267 248793

Ewch i www.eyecare.wales.nhs.uk

Gofynnwch i'ch Optegydd neu'ch Optometrydd lleol eich cyfeirio

[illegible]

[illegible]

What can I expect?

An appointment lasting up to 1 hour with an accredited Low Vision Optician who will:

Discuss the difficulties that your vision impairment causes you

Measure your vision

Help you to try out appropriate visual aids and prescribe suitable ones for you

Discuss your eye condition/s with you

Provide information on support, education, employment and voluntary services in your area where applicable

Refer you to other health professionals and support services if required.

Where do I find this free service?

To find a practice near to you that offers the Low Vision Service Wales you can:

Telephone 01267 248793

Visit www.eyecare.wales.nhs.uk

Ask your local Optician or Optometrist to direct you

Help for adults and children with low vision living or registered with a GP in Wales

The WGOS Low Vision service can provide specialist visual aids, magnifiers, lamps and advice, free of charge, to those who struggle to see clearly when using prescribed glasses or contact lenses.

Accredited Low Vision opticians provide this free NHS service in your community.

They can also direct you to further help from local Authority Services, your GP, Pharmacist, Voluntary Support Groups and other resources in your area.


How do I get an assessment?

You must live in Wales or be registered with a GP in Wales and have had a recent sight test (or be prepared to have one).

You can be referred by any of the following:

- You can be referred by any of the following:
- Yourself, family or friends
- Your own Optometrist/Optician
- GP or Pharmacist
- Local Authority Services
- Hospital Eye Services
- Community Services
- Education Providers
- Voluntary groups

The Low Vision Assessment is normally provided in an opticians practice but in some cases can be carried out in your own home.



Gwasanaethau Offthalmig
Cyffredinol Cymru
Wales General
Ophthalmic Services

Wales General Ophthalmic Service (WGOS): Low Vision

If you have impaired vision we can help you
make the most of your sight.

01267 248793

www.eyecare.wales.nhs.uk